26.01.23

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Taith bersonol Sean Fletcher gyda'r iaith Gymraeg

Mewn cyfres ddogfen newydd sbon ar S4C, mi fydd pedwar cyflwynydd yn mynd a ni ar drywydd hanes y Gymraeg a'u perthynas unigryw nhw â'r iaith.

Mi fydd **Stori'r Iaith** yn gyfres o bedair rhaglen wahanol gyda Sean Fletcher, Lisa Jên, Alex Jones ac Elis James yn holi o ble mae'r iaith wedi dod, beth yw ei sefyllfa heddiw a beth fydd ei dyfodol?

Ac yn y rhaglen gyntaf, fydd ymlaen ar S4C ar nos Fercher 8 Chwefror, y cyflwynydd adnabyddus Sean Fletcher fydd yn mynd ar drywydd gwreiddiau yr iaith Gymraeg a sut y mae hi wedi datblygu erbyn heddiw.

Mae Sean wedi dysgu'r iaith ar ôl cyfarfod ei wraig, ac mae'n cyfaddef nad oedd yn gwybod fod y Gymraeg yn bodoli cyn ei chyfarfod hi. Roedd y Gymraeg yn gonglfaen yn ei theulu, ac roedd Sean yn teimlo ei fod o'n bwysig iddo ddysgu'r iaith:

"Nes i ddysgu Cymraeg allan o gariad a pharch ati hi." meddai Sean, "Fel tad, dwi ddim yn gallu dychmygu peidio siarad iaith y plant...Oni ddim eisiau colli mas ar sgyrsiau'r teulu."

Yn y rhaglen hon, mae Sean yn darganfod sut ddatblygodd y Gymraeg o'r Frythoneg dros fil a hanner o flynyddoedd yn ôl ac yn rhyfeddu at rai o esiamplau cynharaf yr iaith fel carreg Cadfan yn Nhywyn, llawysgrifau gwerthfawr y Llyfrgell Genedlaethol a chyfreithiau Hywel Dda.

Yn ystod y daith, mi fydd Sean yn cwrdd ag unigolion sydd wedi llwyddo i fynd a'r iaith i lwyfan y byd. Ac un sydd wedi gwneud hyn ar un o'r llwyfannau mwyaf yw'r arwr pêl-droed Ben Davies. Ben oedd y person cyntaf erioed i siarad Cymraeg mewn cynhadledd i'r Wasg yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd – moment hanesyddol arall i ni'r Cymry.

Yn y rhaglen, mae Ben yn dweud ei fod yn dewis anwybyddu'r rhai sy'n cwestiynu pam ei fod o'n defnyddio'r iaith ag yntau'n gallu siarad Saesneg:

"Ni sy'n dewis siarad Cymraeg yn ein cyfweliadau ni, ni sy'n dewis i ddefnyddio'r iaith a 'da ni am gario hwnna ymlaen."

Mi fydd Sean hefyd yn edrych ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr a'r Cymreictod sy'n bodoli mewn pentrefi, trefi a dinasoedd ar y gororau.

Un o'r rhai mwyaf amlwg yw Wrecsam. Dinas sydd wastad wedi brwydro i ddangos ei Chymreictod. Er ei fod wedi cael ychydig o help gan rai o sêr Hollywood yn ddiweddar, mae'n gallu bod yn heriol i annog pobl i ddysgu'r Gymraeg.

Ond mae un dyn ar dân eisiau ysbrydoli pobl ifanc i siarad yr iaith. Mae Stephen Rule yn athro Cymraeg yn Ysgol Maelor, ysgol Saesneg yn y ddinas. Mae Stephen eisiau codi ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd a'r buddion o siarad Cymraeg gyda'i ddisgyblion:

"Mae'n amser i bobl stopio meddwl am ddwyieithrwydd fel ryw *ultimatum* – 'dwi ddim' neu 'dwi yn'. Achos mae bod yn ddwyieithog yn broses, yn sbectrwm."

Mae Sean hefyd yn olrhain hanes ei deulu ei hun yn Zimbabwe ac yn agored am y ffaith na basiodd ei fam iaith a diwylliant y wlad honno iddo, rhywbeth sydd wedi bod yn anodd ar brydiau. Erbyn hyn, mae'r Gymraeg wedi llenwi'r bwlch ac wedi newid ei fywyd yn llwyr.

Ac mae o eisiau annog mwy o bobl i ddysgu'r iaith, fel y gwnaeth o ei hun dros ugain mlynedd yn ôl.

"20 mlynedd yn ôl, pan nes i ddechrau fy siwrnai i gyda'r Gymraeg, doedd dim syniad gyda fi y byddai o'n dod yn rhan mor bwysig o fy mywyd i."

"Mae dysgu Cymraeg wedi rhoi hyder i fi. Mae o wedi agor drws ar ddiwylliant Cymru a tase ti'n byw yng Nghymru, pam na fyddet ti eisiau dysgu'r iaith?"

**Nodiadau i Olygwyr:**

Yn cymryd rhan yn y bennod hon o Stori'r Iaith mae:

Y gantores a'r dylanwadwr Bronwen Lewis, yr Athro a'r hanesydd Dr. Dylan Foster Evans, yr hanesydd Llewelyn Hopwood, yr hanesydd Daniel Huws a Gruffudd Antur, y pêl-droediwr Ben Davies, y bardd a'r hanesydd Sara Louise Wheeler, yr athro Stephen Rule a'r hanesydd Dr. Sara Elin Roberts.

**Stori'r Iaith**
**Nos Fercher 8 Chwefror 9.00, S4C**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo Media ar gyfer S4C**

26.01.2023

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Sean Fletcher's personal journey with the Welsh language

In a brand-new documentary series on S4C, four presenters will take us on a journey through the history of the Welsh language and their unique relationship with the language.

**Stori'r Iaith** is a series of four different programmes with Sean Fletcher, Lisa Jên, Alex Jones and Elis James asking where the language has come from, what's the situation today and what will its future be?

And in the first episode, on S4C on Wednesday 8 February, the well-known presenter Sean Fletcher will explore the origins of the Welsh language and how it has developed today.

Sean learned the language after meeting his wife and admits that he didn't know Welsh existed before meeting her. The Welsh language is a cornerstone in her family, and Sean felt it was important for him to learn the language:

"I learned Welsh out of love and respect for her," said Sean, "As a father, I can't imagine not speaking the children's language...I don't want to miss out on family conversations."

In this programme, Sean discovers how the Welsh language developed from Brythonic over a thousand and a half years ago and marvels at some of the earliest examples of the language such as the Cadfan stone in Tywyn, the National Library's valuable manuscripts and the laws of Hywel Dda.

During his journey, Sean will meet individuals who have showcased the language on the world stage. And someone who has done this on one of the biggest stages is Welsh football hero Ben Davies. Ben was the first ever person to speak Welsh at a press conference in the World Cup competition - another historic moment for us in Wales.

In the programme, Ben says that he chooses to ignore those who question why he uses the language when he can speak English:

"We choose to speak Welsh in our interviews, we choose to use the language and we want to carry that on," he said.

Sean will also look at the border between England and Wales and the Welshness that exists in villages, towns, and cities in that area.

One of the most well-known is Wrexham. A city that has always fought to show its Welshness. Although its had a little help from some Hollywood stars recently, it can be challenging to encourage people to learn the Welsh language.

But one man is passionate about inspiring young people to speak the language. Stephen Rule is a Welsh teacher at Ysgol Maelor, an English medium school in the city. Stephen wants to raise awareness of the importance and benefits of speaking Welsh with his pupils:

"It's time for people to stop thinking about bilingualism as a kind of ultimatum - 'I don't' or 'I do'. Because being bilingual is a process, its a spectrum."

Sean also traces his own family history in Zimbabwe and is open about the fact that his mother didn't pass on the language and culture of her country to him, something that has been difficult at times. By now, the Welsh language has filled the gap and changed his life completely.

And he wants to encourage more people to learn the language, as he did himself over 20 years ago.

"Twenty years ago, when I started my journey with the Welsh language, I had no idea that it would become such an important part of my life."

"Learning Welsh has given me confidence. It has opened a door to Welsh culture and if you live in Wales, why wouldn't you want to learn the language?"

**Notes to Editor:**

Taking part in this episode of **Stori'r Iaith** are:

The singer and influencer Bronwen Lewis, professor and historian Dr Dylan Foster Evans, the historian Llewelyn Hopwood, the historians Daniel Huws and Gruffudd Antur, the footballer Ben Davies, the poet and historian Sara Louise Wheeler, the teacher Stephen Rule and historian Dr Sara Elin Roberts.

**Stori'r Iaith**
**Wednesday 8 February, 9.00pm**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Rondo Media production for S4C**